**Crynodeb o Gyfarfod Bwrdd S4C**
Cyfarfod Rhif 467 a gynhaliwyd yn rhithiol

13.00, 14 Rhagfyr 2023

---

## Cofnodion

| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Rhodri Williams | RhW | Cadeirydd y Bwrdd |
| Guto Bebb | GB | Aelod Anweithredol |
| Suzy Davies | SuD | Aelod Anweithredol |
| Geraint Evans | GE | Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi |
| Chris Jones | CJ | Aelod Anweithredol |
| Denise Lewis Poulton | DLP | Aelod Anweithredol |
| Elin Morris | EM | Prif Swyddog Gweithredol |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Manon Edwards-Ahir | MEA | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata |
| Dewi Evans | DE | Rheolwr Prosiectau |
| Geraint Pugh | GP | Ysgrifennydd Bwrdd S4C |
| Catrin Whitmore | CW | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol |
| Sharon Winogorski | ShW | Prif Swyddog Cyllid |
| **Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:** | | |
| Adele Gritten | AG | Aelod Anweithredol |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Materion a godwyd gan y Cadeirydd, a datganiadau diddordeb**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.<br><br>Yn ystod trafodaeth ar wahân cyn y cyfarfod hwn, roedd yr aelodau anweithredol wedi cymeradwyo penodiad GE fel aelod gweithredol o’r Bwrdd Unedol cysgodol. Byddai felly’n mynychu’r cyfarfod presennol fel aelod llawn o’r Bwrdd Unedol Cysgodol.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Nodwyd bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â’u haelodaeth o’r Bwrdd. | |
| 2. | **Ymateb i adroddiad Capital Law**<br><br>Er nad oedd adroddiad Capital Law wedi cynnwys argymhellion penodol i’r aelodau anweithredol eu hystyried, roedd rhai camau oedd angen eu cymryd yn syth. Gyda bod hynny bellach wedi digwydd, roedd yn briodol mynd ati i ymateb i’r materion eraill oedd yn deillio o’r broses canfod ffeithiau – gan wneud hynny ar sail Bwrdd Unedol cysgodol.<br><br>Adroddodd GE i’r Tîm Rheoli a’r Tîm Trawsnewid gwrdd y diwrnod cynt i drafod sut i symud ymlaen gyda’n gilydd fel sefydliad i’r dyfodol. Er bod rhai’n teimlo y byddai’n ddymunol dal yn ôl tan fod Prif Weithredwr newydd mewn lle, ni fyddai modd cychwyn ar y broses recriwtio tan i ni gael eglurder ynghylch tymor y Cadeirydd ac roedd angen mynd i’r afael â rhai agweddau diwylliannol cyn hynny.<br><br>Awgrym y Tîm Trawsnewid felly oedd datblygu cynllun gweithredu ar drawsnewid diwylliannol, gan ddod ag arbenigwyr allanol i arwain a / neu gynghori ar wahanol elfennau | |

| | | |
|---|---|---|
| | o'r cynllun yn ôl yr angen. Cytunwyd byddai dull o'r fath yn briodol, ond y byddai angen perchnogi cyflawni'r cynllun yn fewnol.<br><br>Byddai cynllun gweithredu ar drawsnewid diwylliannol yn rhan o raglen ehangach fyddai'n cael ei berchnogi gan y Bwrdd Unedol cysgodol. Nodwyd bod yr aelodau anweithredol eisoes wedi trafod rhai elfennau y byddent yn awyddus i'w cynnwys fel edafedd o raglen waith ehangach.<br><br>O ran swydd y Prif Swyddog Cynnwys, nodwyd mai mater i'r Prif Weithredwr parhaol fyddai ystyried strwythur y Tîm Rheoli a phenderfynu sut i lenwi'r swydd. Yn y cyfamser, y disgwyl oedd y byddai GE yn parhau i ymgymryd â dyletswyddau'r Prif Swyddog Cynnwys.<br><br>Nododd DLP bwysigrwydd cael cynllun cyfathrebu dros dro – gyda ffocws penodol ar gyfathrebu mewnol dros y cyfnod nesaf. Yn ddelfrydol, byddai mecanwaith addas mewn lle i hwyluso cyfathrebu rhwng y Bwrdd a'r staff, gan fod aelodau'r Bwrdd yn awyddus i wrando ar gydweithwyr.<br><br>**Penderfyniad: I fynd ati i gytuno ar raglen waith, fyddai'n cynnwys cynllun gweithredu ar drawsnewid diwylliannol wedi ei ddatblygu gan y Tîm Rheoli.** | GP / GE / EM / CW |
| 3. | **Adolygu'r Datganiad a'r Matrics Archwaeth Risg**<br><br>Cyflwynodd ShW ei hadroddiad oedd yn amlinellu canlyniad adolygiad y Tîm Rheoli o'r matrics risg presennol (a gytunwyd yn ystod hydref 2022). Fel rhan o'r adolygiad, roedd ShW wedi mapio'r 13 risg strategol i ddangos le maent yn syrthio ar y matrics archwaeth risg.<br><br>Nododd SuD bod trefniadau rheoli risg gweithgareddau masnachol S4C yn cael eu monitro ar wahân gan Fwrdd y Grŵp Masnachol, ond y byddai'n ddefnyddiol cael trosolwg o'u harchwaeth risg hefyd.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r matrics archwaeth risg diwygiedig.** | ShW |
| 4. | **Siâp cyllideb 2024–25**<br><br>Cyflwynodd ShW ei phapur oedd yn  cynnig trosolwg o'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2024–25. Byddai'r gyllideb derfynol yn cael ei chyflwyno yn y gwanwyn i'w chymeradwyo'n ffurfiol.<br><br>Ers cylchredeg yr adroddiad, roedd S4C wedi derbyn cadarnhad ar 07 Rhagfyr 2023 o'r raddfa chwyddiant CPI fyddai'n cynyddu'r incwm o Ffi'r Drwydded o Ebrill 2024. Fodd bynnag, roedd trafodaethau gyda'r BBC yn parhau ynghylch a fyddai'r hyn maent yn ei wario ar y cynnwys 10 awr statudol hefyd yn cynyddu mewn gwerth. | |
| 5. | **Adroddiad y Tîm Rheoli**<br><br>Cyflwynwyd yr adroddiad, oedd yn amlinellu'r gwaith oedd wedi digwydd dros y cyfnod diweddar.<br><br>Mewn ymateb i gais blaenorol y Bwrdd, roedd yr adroddiad yn cynnwys atodiad oedd yn amlinellu'r trefniadau a gytunwyd gyda BARB yn ddiweddar ar gyfer adnewyddu'r 'boost'. Nodwyd pwysigrwydd y 'boost' er mwyn cynnig data mwy manwl i S4C, fyddai'n ein caniatáu i ni allu mesur ystod ehangach o'n cynulleidfaoedd targed yn well. Yn hynny o beth, roedd y Tîm Rheoli'n teimlo bod y trefniant newydd yn cynnig gwerth am arian i S4C. | |
| 6. | **Materion eraill a gymeradwywyd**<br><br>Cytunwyd cyn y cyfarfod y byddai'r canlynol yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol heb unrhyw drafodaeth:<br><br><u>Canllawiau Iaith diwygiedig</u><br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y diwygiadau i'r Canllawiau Iaith.**<br><br><u>Protocol Masnachol</u><br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y Protocol Masnachol**<br><br><u>Cofnodion Cyfarfod Rhif 465 (a gynhaliwyd 19.10.23)</u> | SP<br><br>EM |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ac fe'u cymeradwywyd. | |
| 7. | **Materion eraill a nodwyd**<br><br>Cytunwyd cyn y cyfarfod y byddai'r canlynol yn cael eu nodi heb unrhyw drafodaeth:<br><br><u>Pwyntiau gweithredu</u><br><br>Nodwyd y gofrestr Pwyntiau Gweithredu.<br><br><u>Penderfyniadau rhwng cyfarfodydd</u><br><br>Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, roedd yr aelodau wedi cymeradwyo'r canlynol:<br><br>Diswyddo Llinos Griffin-Williams (12.10.23).<br><br>Proses i benodi Prif Weithredwr dros dro yn sgil absenoldeb parhaol y Prif Weithredwr parhaol (08.11.23).<br><br>Diswyddo Siân Doyle (24.11.23).<br><br>Adroddiad Effaith Economaidd a Chymdeithasol S4C ar ffurf dogfen i'w cyhoeddi (27.11.23).<br><br>Penodi EM fel Swyddog Cyfrifo dros dro (28.11.23).<br><br><u>Adroddiadau gan y Pwyllgorau</u><br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol:<br>• Bwrdd y Grŵp Masnachol (11.10.23)<br>• Archwilio a Risg (16.11.23)<br>• Pobl a Thaliadau (16.11.23)<br>• Cyfathrebu (23.11.23)<br>• Cynnwys (23.11.23)<br><br><u>Dyddiadau cyfarfodydd 2024–25</u><br><br>Nodwyd y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau o 01 Ebrill 2024 ymlaen.<br><br><u>Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf</u><br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf. | |